

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 2ail o HYDREF 2017 YN NEUADD YR EGLWYS LLANGYNDEYRN AM 7.00.

Presennol: Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Meic Bowen, Tyssul Evans, Aled Williams, Tracey James, Margaret Rees, Linda Williams, Geraint Rosser a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones a Geoff Hewitt.

Materion Personol

1794 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1795 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 04/09/2017 fel rhai cywir.

1796 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1776 - Rheilffordd Pontiets - Gobeithir y bydd y gwaith wedi ei chwblhau o fewn ychydig wythnosau.

Tud 1. Cofnod Rhif 1776 - Toiledau'r Meinciau – Y mae'r Toiledau wedi ail-agor a'r drysau newydd wedi eu gosod.

Tud 2. Cofnod Rhif 1789 – Cais Cynllunio W/35810 – Tir nes at Pererin, Carwe

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1797 Eisteddfod Llandyfaelog - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1798 Eisteddfod Bancffosfelen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1799 Shanade, Shakia & Shanie Reilly - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £150 yr un tuag at eu treuliau yn cynrychioli Cymru mewn 'Kickbocsio'

1800 Macmillan Cancer – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1801 Meinciau Sports & Social Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

1802 Meinciau Short Mat Bowls Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1803 Neuadd Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1804 Nasareth Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1805 Dyfroedd Byw Pontnewydd - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1806 Seindorf Arian Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1807 Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1808 Ffederasiwn C.Ff.I.Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1809 Cyngor Sir Gar – Addurniadau Tymhorol– Nodwyd y Llythyr.

1810 Cyngor Cymuned Llangynnwr - Gwahoddiad i'r Cadeirydd ar 08/10/17- .Nodwyd y Llythyr.

1811 Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru – Papur Gwyn – Nodwyd y Papur.

1812 Neuadd Pontiets – Cyfarfod ar 17/10/17 i drafod dathlu 80 mlynedd sefydlu'r Neuadd – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

1813 Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/36180 – Mr. Orwel Davies - Tir i'r Gorllewin o Bryncerrig, Meinciau Mawr, Meinciau – Amodau - Dim Gwrthwynebiad .

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1814 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Medi 2017.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1815 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Medi)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Medi)
- ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Medi)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Medi)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £46.07 (Mis Medi)
- e) Stampiau - £11.70
- f) Thomas Glass – Drysau Newydd - Toiledau'r Meinciau - £6715.31
- ff) Marcus Dininno – Gwaith ym Marc Carwe - £30.00
- g) Justin Gravell _ Gwaith ym Mharc Pontiets/Gwynfryn - £847.00
- ng) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau - £91.00
- h) Neuadd Pontiets – Rent y Swyddfa - £2000.00

Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2016-2017

1816 Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Darllenwyd llythyr oddiwrth Cwmni Grant Thornton yn amgáu Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Diamod i'r Cyngor Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

Cyfethol Cyngorwr – Ward Llangyndeyrn

1817 Cafwyd adroddiad gan y Clerc nad oedd neb wedi gwneud cais am etholiad i lenwi'r sedd wag. Felly mae hysbysiad o gyfethol wedi ei osod yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn. Y dyddiad cau fydd 19/10/17.

Trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin

1818 Bwriedir cynnal Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid i drafod yr uchod a hefyd Presept 2018-2019 am 10.00 o'r gloch ar Llun 16/10/17. yn Swyddfa'r Cyngor

Pwyllgor Cyllid - Sedd Wag

1819 Yn dilyn marwolaeth y diweddar Gynghorwr Richard Thomas enwebwyd y Cynghorydd Margaret Rees i lanw'r sedd wag.

Swyddog Datblygu – Gwendraeth Isaf

1820 Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc o'r ddau gyfarfod a gynhaliwyd rhwng Mr Alan Lewis o Fenter Cwm Gwendraeth a Ms Caroline Owen o Gyngor Sir Gar. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ein bod yn derbyn yr egwyddor o benodi Swyddog Datblygu rhwng Cynghorau Cymuned yn rhan isaf Cwm Gwendraeth.

Cyn Cadeiryddion y Cyngor Cymuned

1821 Penderfynwyd ein bod yn ymchwilio trwy'r Archifdy yng Nghaerfyrddin ac Abertawe am enwau'r Cyn Cadeiryddion a'u cofnodi mewn ffordd ymarferol.

Materion Cynghorwyr

1822 Alan – Diolch i'r Cyngor Sir am eu gwaith y tu allan i Moreia Meinciau.

1823 Ian - Cysylltu ag Excel Electrics ynglyn a Goleuadau Nadolig Coed Carwe.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Dachwedd 2017 yn Neuadd Carwe am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....